



Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

# Y Darlun Mawr
## Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru

Chwefror 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh**
Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDGCh@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddDGCh**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

# Y Darlun Mawr
## Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru

Chwefror 2017

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

# Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Sefydlwyd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): diwylliant; y celfyddydau; yr amgylchedd hanesyddol; y Gymraeg; cyfathrebu; darlledu a'r cyfryngau.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor:**



**Bethan Jenkins AC (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Hannah Blythyn AC**
Llafur Cymru
Delyn



**Dawn Bowden AC**
Llafur Cymru
Merthyr Tudful a Rhymni



**Suzy Davies AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



**Neil Hamilton AC**
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Dai Lloyd AC**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Jeremy Miles AC**
Llafur Cymru
Castell-nedd



**Lee Waters AC**
Llafur Cymru
Llanelli

# Cynnwys


Rhagair ..... 5

01. Y BBC ..... 9

02. S4C ..... 20

03. ITV Cymru ..... 27

04. Ofcom ..... 30

# Rhagair

Er nad yw'r rhan fwyaf o agweddau ar bolisi cyfryngau a darlledu yn cael eu datganoli i Gymru, mae rôl darlledwyr a'r cyfryngau yng Nghymru o bwysigrwydd diwylliannol a gwleidyddol enfawr. Er efallai nad yw'r materion hyn wedi'u datganoli yn ffurfiol, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ddiddordeb clir a dilys yn dwyn darlledwyr, a'r cyfryngau yn fwy cyffredinol, i gyfrif: yn arbennig mewn perthynas â'r ffordd y mae Cymru a chymdeithas Cymru yn cael eu portreadu a'u hadlewyrchu gan ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus.

Cafodd pwysigrwydd y maes hwn ei gydnabod yn y Cynulliad diwethaf pan argymhellodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y dylai'r Cynulliad hwn sefydlu Pwyllgor gyda ffocws penodol ar gyfathrebu, darlledu a'r cyfryngau. Ffurfiwyd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn sgil yr argymhelliad hwnnw. Rydym yn bwriadu ystyried pob agwedd ar ddarlledu a'r cyfryngau yn ystod y Cynulliad hwn. Yn y tymor byr i ganolig rydym yn bwriadu cynnal Ymchwiliadau'r Pwyllgor i ystyried y canlynol:

- adolygiad arfaethedig Llywodraeth y DU o gylch gwaith, cyllid ac atebolrwydd S4C;
- cyfryngau lleol a newyddiaduraeth newyddion lleol yng Nghymru;
- radio masnachol yng Nghymru; a'r
- portread o Gymru ar rwydweithiau darlledu'r DU.

Fodd bynnag, ar y cychwyn, gwnaethom benderfynu fel Pwyllgor ei bod yn bwysig inni ymgyfarwyddo ein hunain â'r materion eang a'r cefndir cyn cynnal darnau mwy manwl o waith. O ganlyniad i hyn, rydym wedi cynnal nifer o sesiynau tystiolaeth, ac wedi mynd ar sawl ymweliad, yn ystyried y cyfryngau yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth ffurfiol gan y canlynol:

- BBC Cymru 6 Hydref 2016;[1]
- ITV Cymru 6 Hydref 2016;[2]
- S4C 6 Hydref 2016;[3]
- Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC 2 Tachwedd 2016;[4] ac
- Ofcom 20 Hydref 2016.[5]

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ymweld â:

- swyddfeydd Wales Online;

---

[1] Trawsgrifiad o'r Cyfarfod - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 6 Hydref 2016 (http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=15157)
[2] ibid
[3] ibid
[4] Trawsgrifiad o'r Cyfarfod – Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 2 Tachwedd 2016 (http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=15157)
[5] Trawsgrifiad o'r Cyfarfod – Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 20 Hydref 2016 (http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=15157)

– swyddfeydd S4C;

– stiwdio Porth y Rhath y BBC; a

– stiwdio ITV Cymru ym Mae Caerdydd.

Felly, dyma'r cyntaf mewn llinyn o waith lle rydym yn bwriadu edrych ar ddarlledu a'r cyfryngau yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn darparu sylfaen ar gyfer y gwaith mwy penodol yr ydym yn bwriadu ymgymryd ag ef yn y dyfodol. Mae hefyd yn rhoi cyfle inni dynnu sylw at ein safbwyntiau cychwynnol ar y materion allweddol sy'n wynebu'r cyfryngau yng Nghymru ac i gyfrannu at y drafodaeth barhaus ynghylch a yw Cymru yn cael y cyfryngau y mae'n ei haeddu.

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC ddarparu £30 miliwn ychwanegol bob blwyddyn ar gyfer dramâu Saesneg a darlledu am Gymru. ........................................................................................ Tudalen 11

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell na ddylid bod unrhyw ostyngiad yn y gyfran bresennol o wariant rhwydwaith yng Nghymru, ac y dylai wneud mwy i adlewyrchu a phortreadu cymdeithas a safbwyntiau Cymreig. .............. Tudalen 11

**Argymhelliad 3.** Rydym yn cefnogi'r syniad o drefniant eithrio i Radio 1 a Radio 2 ar gyfer newyddion am Gymru ac yn argymell bod y BBC yn darparu'r cyllid angenrheidiol i sicrhau hyn. ........................................................................ Tudalen 11

**Argymhelliad 4.** O ystyried ein pryderon ynghylch canlyniadau anfwriadol posibl y dull y mae'r BBC wedi'i fabwysiadu, rydym yn argymell y dylai'r BBC adolygu'n feirniadol ei chynlluniau i ymgorffori newyddiadurwyr y BBC mewn sefydliadau cyfryngau lleol. Rydym yn argymell hefyd fod y BBC yn ystyried buddsoddi mewn gwasanaeth penodol ar gyfer darparu newyddion lleol y gellir ei ddefnyddio gan sefydliadau'r cyfryngau lleol ar faterion lle mae newyddiaduraeth leol wedi dirywio, fel newyddion am gynghorau a llysoedd lleol. ................................................................................................................................ Tudalen 14

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell na ddylai Llywodraeth Cymru roi ei chaniatâd i benodi aelod newydd Bwrdd y BBC ar gyfer Cymru hyd nes y caiff y Pwyllgor gyfle i gynnal gwrandawiad cyn penodi gydag enwebai Llywodraeth y DU ar gyfer y swydd. ........................................................................................ Tudalen 19

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell na ddylai fod unrhyw doriadau pellach i gyllid S4C hyd nes bod yr adolygiad arfaethedig wedi'i gwblhau a bod pawb sydd â rhan yn nyfodol S4C wedi cael cyfle i fyfyrio ar ei gasgliadau. ............ Tudalen 22

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno y dylai Awdurdod S4C osod adroddiadau blynyddol a datganiadau archwiliedig o gyfrifon gerbron y Cynulliad. ....................................................................... Tudalen 24

**Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU ac Ofcom yn ystyried diwygio Cod Ymarfer Ofcom ar gyfer darparwyr Canllaw Rhaglenni Electronig i sicrhau bod S4C yn amlwg yng Nghymru yn y Canllawiau Rhaglenni Electronig a chymwysiadau teledu deallus, fel gwasanaeth i-player y BBC. ........................................ Tudalen 26**

**Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod Stiwdios ITV yn dilyn y BBC ac yn mabwysiadu dull mwy rhagweithiol o ddatblygu rhaglenni i'w darlledu ar rwydwaith ITV, gan gynnwys pennu nodau penodol ar gyfer datblygu cynnyrch rhwydwaith o Gymru, sy'n adlewyrchu bywyd yng Nghymru. ................. Tudalen 29**

**Argymhelliad 10. Rydym yn argymell y dylai ITV, Channel 4 a Channel 5 ddarparu diweddariad blynyddol i'r Cynulliad, drwy'r Pwyllgor, yn nodi gwybodaeth am y portread o Gymru ar eu rhwydweithiau. ...................... Tudalen 29**

**Argymhelliad 11. Rydym yn galw ar Ofcom i asesu pa bwerau sydd ganddo i gynyddu cwotâu Channel 4 y tu allan i Loegr cyn adnewyddu'r drwydded nesaf yn 2024 a thrwy wneud hynny, ailystyried yr opsiynau mwy heriol a awgrymwyd ar gyfer cynyddu'r cwota yn 2013-14. ........................................................ Tudalen 34**

# 01. Y BBC

## Cyllid

**1.** Roedd gwariant BBC Cymru ar allbwn teledu Saesneg ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru rhwng 2006-7 a 2014-15 wedi gostwng o £24.6 miliwn i £20.8 miliwn. Yn dilyn hyn, mae wedi codi i £22.5 miliwn yn 2015-16. Yn 2015-16, roedd allbwn teledu Saesneg (ac eithrio ailddarllediadau) yn 641 awr, sef gostyngiad o 21 y cant o uchafbwynt diweddar o 814 awr yn 2006-7.

**2.** Nododd Cyngor Cynulleidfa'r BBC ar gyfer Cymru fod toriadau wedi dod â'r ddarpariaeth teledu heb fod yn newyddion BBC Cymru yn agosach at ymyl y clogwyn.[6]

**3.** Tua diwedd y Cynulliad diwethaf, cynhaliodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ymchwiliad[7] i sut y dylai Siarter y BBC adlewyrchu buddiannau Cymru. Un o'i argymhellion oedd y dylai'r BBC fuddsoddi £30 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu ar gyfer Cymru. Mae'r Sefydliad Materion Cymreig (yn ei Archwiliad i Gyfryngau Cymru 2015[8]) a Llywodraeth Cymru[9] hefyd wedi galw am hyn.

**4.** Mae'r Arglwydd Hall, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, wedi cydnabod ers peth amser y broblem sy'n ymwneud â chyllid ar gyfer darlledu'n Saesneg yng Nghymru. Ym mis Mai 2016, mewn llythyr[10] at yr Ysgrifennydd Gwladol a Phrif Weinidogion y gwledydd datganoledig, nododd yr Arglwydd Hall fod y "cyllid ar gyfer cynnwys Saesneg a wneir yng Nghymru ar gyfer cynulleidfa yng Nghymru wedi gostwng i lefelau na ellir eu cynnal". Cydnabu'r Arglwydd Hall y broblem mewn derbyniad yn y Cynulliad yn ôl yn 2014, gan gyfaddef "bod rhaglenni Saesneg o Gymru ac ar gyfer Cymru wedi bod yn lleihau ers bron i ddegawd".[11]

**5.** Eglurodd Mr Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr BBC Cymru, fod y BBC ar hyn o bryd wrthi'n penderfynu ble y bydd toriadau'n cael eu gwneud - i'w galluogi i ymdopi â'r setliad gwastad ar gyfer ffi'r drwydded - a fydd yn cael ei ddilyn gan benderfyniad am flaenoriaethau buddsoddi yn y dyfodol.

**6.** Disgrifiodd[12] yr Arglwydd Hall (Mawrth 2016) sefyllfa ariannol y BBC fel a ganlyn:

> "We said last July that the licence fee agreement meant flat cash for the BBC through to 2022. Of course in real terms, that means a cut in our income of 10 per cent.

---

[6] Cyngor Cynulleidfa Cymru y BBC, Adolygiad Blynyddol Cymru 2014-15 (http://www.bbc.co.uk/bbctrust/who_we_are/audience_councils/wales/wales_annual_review/wales_annual_review_2014_15.html)
[7] Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol - Ymchwiliad i'r Adolygiad o Siarter y BBC (http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=13600&AIID=24622)
[8] Archwiliad i'r Cyfryngau 2015 - Sefydliad Materion Cymreig (http://www.iwa.wales/news/2015/11/iwa-wales-media-audit-2015/)
[9] Rhaid i Gymru gael bargen deg o ran y BBC wrth i doriadau fygwth tanseilio diwylliant Cymru, yn ôl Prif Weinidog Cymru, Datganiad i'r Wasg Llywodraeth Cymru, 17 Awst 2015 (http://gov.wales/newsroom/firstminister/2015/150817-bbc-fair-funding/?skip=1&lang=cy)
[10] Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC - Llythyr 12 Mai (http://downloads.bbc.co.uk/mediacentre/nations-progress-update.pdf)
[11] Tony Hall: Rhaglenni teledu Saesneg y BBC yng Nghymru wedi'u 'herydu', 1 Ebrill 2014 (http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-26840089)
[12] Araith gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, 8 Mawrth 2016 (http://www.bbc.co.uk/mediacentre/speeches/2016/tony-hall-enders)

But the true picture is much tougher, because the BBC cannot stand still.

We need to absorb the falls in TV penetration that create an annual loss in income of £150m. We need to cope with rapid inflation in areas such as drama and sport. And we need to reinvest to stay competitive.

The overall result is that, by 2022, the BBC will need to make overall savings of £800 million a year. That's 23 per cent – and in some parts of the BBC, it will be more."

**7.** Disgwylir i gyfran BBC Cymru o'r arbedion hyn fod yn £9 miliwn y flwyddyn. Dywedodd Mr Talfan Davies wrth y Pwyllgor ym mis Hydref fod BBC Cymru yn disgwyl gorfod penderfynu yn y 2-3 mis nesaf lle y byddai'n arbed arian, gan ddisgrifio buddsoddiad ychwanegol mewn rhaglenni teledu Saesneg yng Nghymru fel "blaenoriaeth absoliwt".

**8.** Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi rhoi sicrwydd y bydd BBC Cymru yn cael arian ychwanegol ar gyfer rhaglenni yn Saesneg, heb ddarparu manylion am faint y bydd hyn. Dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai, ym mis Mawrth 2017, yn gallu dweud faint o arian ychwanegol sy'n cael ei ddyrannu ar gyfer rhaglenni Saesneg yng Nghymru. Cyfeiriodd at hyn fel "yr unig ymrwymiad y mae wedi'i wneud i neb" ynghylch rhagor o gyllid. Honnodd mai mis Mawrth 2017 oedd y cyfle cyntaf i gadarnhau faint o arian ychwanegol fyddai ar gael, gan "nad oedd modd dibynnu ar ddim nes bod y Siarter wedi'i llofnodi a bod y cytundeb wedi'i gwblhau".

**9.** Trafododd Mr Talfan Davies gyda'r Pwyllgor y posibilrwydd o drefniant eithrio ar newyddion Radio 2 i ganiatáu bwletin newyddion Cymreig. Roedd yn amcangyfrif y byddai'r cynnig hwn yn costio £0.5 miliwn mewn costau dosbarthu, ynghyd â chost olygyddol am ddarparu'r bwletin newyddion newydd. Mae'r Arglwydd Hall wedi dweud wrth y Pwyllgor yn y gorffennol bod trefniant eithrio ar gyfer newyddion Radio 1 a Radio 2 "yn sicr ar yr agenda ar gyfer yr adolygiad newyddion".

**10.** Ers tua 2006, mae gwariant rhwydwaith y BBC yng Nghymru wedi cynyddu i'r graddau fod Cymru wedi ennill 7.8 y cant – neu £59.1 miliwn – o wariant y BBC yn y DU ar y rhwydwaith deledu, sy'n fwy na'i chyfran o'r boblogaeth, sef 4.9 y cant. O dan Siarter y BBC – a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2017 - un o ddyletswyddau Ofcom fydd sicrhau bod "cyfran addas" o raglenni rhwydwaith yn cael eu gwneud y tu allan i Lundain, gan gynnwys ym mhob un o wledydd y DU. Yn 2006, gosododd y BBC darged i fuddsoddi 17 y cant o'i gwariant cyffredinol ar y rhwydwaith yn y gwledydd datganoledig, sy'n cyd-fynd yn fras â maint poblogaeth y gwledydd hynny gyda'i gilydd. Nid yw Llywodraeth y DU yn bwriadu lleihau'r targed gofynnol hwn.

### Ein barn ni

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad cadarn gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC y bydd BBC Cymru yn cael arian ychwanegol ar gyfer darlledu'n Saesneg yng Nghymru. Rydym yn deall na fydd yn gallu cadarnhau faint o arian ychwanegol fydd ar gael tan fis Mawrth. Mae'r Arglwydd Hall wedi cytuno i ddod i gyfarfod y Pwyllgor o gwmpas yr amser hwnnw ac rydym yn disgwyl y bydd yn gallu defnyddio'r cyfle i gyhoeddi cyllid ychwanegol sylweddol ar gyfer darlledu'n Saesneg yng Nghymru.

O ran faint y dylai'r arian ychwanegol hwnnw fod, rydym yn nodi bod Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Pedwerydd Cynulliad a Grŵp Polisi Cyfryngau mawr ei barch y Sefydliad Materion Cymreig wedi galw am £30 miliwn yn ychwanegol bob blwyddyn, ffigur sydd wedi cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

Rydym yn adleisio'r argymhellion. Byddai £30 miliwn ychwanegol ar gyfer rhaglenni Saesneg o bosibl yn caniatáu ar gyfer dyblu'r allbwn ac i BBC Cymru gynhyrchu rhaglenni o ansawdd sydd â siawns well o ennill lle ar rwydwaith y BBC.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC ddarparu £30 miliwn ychwanegol bob blwyddyn ar gyfer dramâu Saesneg a darlledu am Gymru.

Nodwn hefyd fod Cymru wedi sicrhau mwy na'i chyfran o'r boblogaeth o wariant gan y BBC yng Nghymru. Unwaith eto, caiff hyn ei groesawu ac mae'n adlewyrchu llwyddiant sylweddol Porth y Rhath a'r rhaglenni sy'n cael eu gwneud yno. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r gwariant hwn yn gwneud llawer i adlewyrchu hunaniaeth a safbwynt unigryw Gymreig boed hynny i Gymru ei hun, i wledydd a rhanbarthau eraill y DU neu'n rhyngwladol.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell na ddylid bod unrhyw ostyngiad yn y gyfran bresennol o wariant rhwydwaith yng Nghymru, ac y dylai wneud mwy i adlewyrchu a phortreadu cymdeithas a safbwyntiau Cymreig.

Radio 2 yw'r orsaf radio y gwrandewir arni fwyaf yng Nghymru ac eto nid yw'n darparu bron ddim cynnwys newyddion Cymraeg penodol.[13] Rydym yn nodi y caiff trefniant eithrio i Radio 1 a Radio 2 ar gyfer newyddion am Gymru ei ystyried fel rhan o adolygiad newyddion y BBC. Nid yw hyn cyn ei amser. Nid yw'r allbwn newyddion o'r gorsafoedd hyn yn gwneud llawer i hyrwyddo agendâu newyddion arbennig iawn yng Nghymru neu yn rhywle arall yn y DU ac mae'n gwneud llawer i greu ac atgyfnerthu dryswch ynghylch y cyfrifoldeb am benderfyniadau gwleidyddol o fewn gwahanol wledydd y DU.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn cefnogi'r syniad o drefniant eithrio i Radio 1 a Radio 2 ar gyfer newyddion am Gymru ac yn argymell bod y BBC yn darparu'r cyllid angenrheidiol i sicrhau hyn.

## Y gydberthynas rhwng BBC Cymru ac S4C

**11.** Yn 2011-12, o dan y trefniadau blaenorol, roedd S4C yn cael £101 miliwn gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Llywodraeth y DU. Cafodd y cyllid hwnnw ei leihau i tua £7 miliwn y flwyddyn o 2013-14, gyda'r BBC yn darparu £76.3 miliwn. Bu gostyngiad pellach i £74.5 miliwn yn elfen y BBC yn 2016-17. Roedd Siarter Ddrafft y BBC a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn nodi y bydd y cyllid hwn o ffi'r drwydded yn parhau'n gyson mewn termau arian parod tan 2020-21 (toriad termau real o tua 10 y cant erbyn 2020-21). Yn gyffredinol, mae'r newidiadau wedi golygu bod S4C wedi wynebu toriadau i'w gyllideb sy'n o leiaf 36 y cant mewn termau real ers 2010.[14] Mae cyfraniad presennol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn parhau ar yr un lefel â 2015-16 (£6.8 miliwn) yn 2016-17, gan aros am gasgliadau adolygiad Llywodraeth y DU i S4C, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2017. Mae S4C wedi croesawu'r "elfen o sefydlogrwydd" a ddarperir gan setliad ffi'r drwydded.

**12.** Clywodd y Pwyllgor fod gan BBC Cymru ac S4C gydberthynas gydweithredol sydd o fudd i'r ddwy ochr ar hyn o bryd. Dywedodd Rhodri Talfan Davies wrth y Pwyllgor:

---

[13] Archwiliad i'r Cyfryngau 2015 - Sefydliad Materion Cymreig (http://www.iwa.wales/news/2015/11/iwa-wales-media-audit-2015/)
[14] ibid

> "It's a very sensible, mature arrangement, but it is underpinned by an operating agreement that gives both broadcasters confidence that their ability to take independent executive decisions on editorial and managerial matters is safeguarded."

**13.** Clywodd y Pwyllgor ei bod wedi cymryd "12 i 18 mis i benderfynu ar y manylion ar ôl trefniant ffi'r drwydded yn 2011". Roedd Mr Talfan Davies yn hyderus y byddai annibyniaeth y ddau ddarlledwr yn cael ei diogelu, er y bydd angen addasu'r trefniant rhwng y ddau i adlewyrchu'r trefniadau llywodraethu newydd o dan Siarter newydd y BBC.

**Ein barn ni**

Rydym yn dweud mwy am y gydberthynas rhwng S4C a'r BBC yn adran S4C yr adroddiad hwn.

## Portread drwy ddramâu

**14.** O ran gwella'r portread o Gymru nad yw'n ymwneud â'r newyddion, dywedodd Mr Talfan Davies wrth y Pwyllgor fod y BBC yn cyflwyno golygydd comisiynu drama ac Ystafell Ysgrifennu (tîm datblygu ar gyfer awduron drama a chomedi newydd) ar gyfer pob gwlad yn y DU. Dywedodd mai'r "rhan olaf" o'r broses oedd "gweithio'n galetach".

**15.** Bydd y Comisiynwyr Drama ar gyfer y gwledydd yn gomisiynwyr rhwydwaith, yn gweithio o dan Reolydd newydd Comisiynu Drama y BBC. Dywedodd Mr Talfan Davies ei fod yn gobeithio y byddai Comisiynydd Cymru yn:

> "…ffocysu ar dalent yma yng Nghymru a gweithio'n agos â BBC Studios a'r nifer fawr o gwmnïau annibynnol sydd â diddordeb i ddatblygu talent."

**16.** Wrth drafod y broses gomisiynu gyda'r Pwyllgor, dywedodd Mr Talfan Davies mai un maes i'w ystyried oedd "edrych ar sut y byddai comisiynwyr lleol - neu gomisiynwyr sydd wedi'u lleoli yn y gwledydd - yn comisiynu'n uniongyrchol ar sianeli rhwydwaith".

**17.** Eglurodd yr Arglwydd Hall y byddai'r Comisiynwyr Drama newydd yn cyflwyno cynigion i'r gyllideb drama rhwydwaith ar gyfer y DU gyfan, yn hytrach na bod ganddynt gyllidebau penodol. Cadarnhaodd hefyd y byddai Comisiynydd Cymru wedi'i leoli yng Nghymru.

**18.** Dywedodd yr Arglwydd Hall wrth y Pwyllgor bod portreadu yn un o amcanion bob genre rhwydwaith yn y byd teledu erbyn hyn. Aeth ymlaen i egluro:

> "That's monitored quarterly, the data is looked at with Rhodri and other directors from nations with Charlotte Moore (Director of BBC Content), meeting to go through that analysis. It's a quarterly meeting with the director of content."

**Ein barn ni**

Rydym yn croesawu penderfyniad y BBC i benodi comisiynydd drama ar gyfer Cymru. Rydym yn croesawu yn benodol ymrwymiad yr Arglwydd Hall y bydd y comisiynydd newydd wedi'i leoli yng Nghymru. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu'r comisiynydd unwaith iddo gael ei benodi ac yn ei wahodd i siarad â'r Pwyllgor am ei flaenoriaethau a'i ddull gweithredu.

Rydym yn nodi ac yn croesawu'r gwaith a wneir gan y BBC i fonitro portread yn ei chynyrchiadau rhwydwaith, a byddwn yn gofyn i'r BBC rannu'r data hwn â'r Pwyllgor. Er mwyn inni asesu'r portread o Gymru yn effeithiol, hoffem weld y data llawn a ddefnyddir gan y BBC i fesur hyn, yn hytrach na dim ond enwau sioeau teledu a radio. Rydym yn bwriadu dilyn y mater hwn gyda'r BBC.

## Newyddion

**19.** O ran gwella'r portread o Gymru yn y newyddion, dywedodd yr Arglwydd Hall fod y BBC wrthi'n cynnal adolygiad o'r cydbwysedd rhwng darpariaeth newyddion rhwydwaith a darpariaeth newyddion ym mhob un o'r gwledydd.

**20.** Dywedodd yr Arglwydd Hall wrth y Pwyllgor mai un o'r "materion allweddol" y mae wedi bod yn eu trafod gyda Mr Talfan Davies oedd newyddion radio, ac a "oedd ffordd arall o sicrhau y byddai elfen Cymru o'r crynodebau newyddion ar y radio yn gweithio'n dda".

**21.** Ym mis Mai 2016, cyhoeddodd y BBC nifer o gynlluniau i wella'r gwaith o graffu ar ddemocratiaeth leol yn y DU.[15] Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys:

- Sefydlu gwasanaeth adrodd i gwmpasu awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r BBC yn bwriadu ariannu 150 o newyddiadurwyr o 2017 ymlaen, a gaiff eu cyflogi gan sefydliadau newyddion lleol cymwys i ddarparu gwasanaeth i ddarparwyr newyddion lleol, gan gynnwys y BBC.
- Cronfa newyddion fideo a fydd yn golygu y gall gwefannau cyfryngau newyddion lleol eraill gael gafael ar gynnwys newyddion fideo a sain lleol y BBC.
- Bydd y BBC yn buddsoddi mewn uned newyddiaduraeth data a fydd yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y diwydiant i ddatblygu arbenigedd a darparu cynnwys i bob darparwr newyddion lleol.
- Archwiliad annibynnol i nodi'r defnydd o gynnwys y wasg leol gan y BBC ar ei llwyfannu cyfryngau, ac i'r gwrthwyneb. Bydd allbwn yr archwiliad annibynnol yn llywio adolygiad o ymdrechion y BBC i wella sut y caiff straeon a ffynonellau eu cysylltu a'u priodoli.

**22.** Mae'n debygol y bydd rhoi'r cynlluniau hyn ar waith yn costio tua £8 miliwn y flwyddyn. Wrth drafod y cynigion hyn gyda'r Pwyllgor, dywedodd Mr Talfan Davies y dylid ystyried y "canlyniad anfwriadol" posibl o ran y BBC yn ariannu newyddiadurwyr i weithio mewn sefydliadau newyddion lleol, ond:

> "The scale of the licence fee, and the scale of the BBC, means that we should be looking wherever we can to support the wider media ecology."

**23.** Cadarnhaodd yr Arglwydd Hall y bydd y cynlluniau hyn yn mynd yn eu blaen.

### Ein barn ni

Rydym yn croesawu'r adolygiad i'r cydbwysedd rhwng darpariaeth newyddion rhwydwaith a darpariaeth newyddion ym mhob un o'r gwledydd. Rydym yn edrych ymlaen

[15] Y BBC a'r Gymdeithas Cyfryngau Newyddion yn cynllunio partneriaeth newydd, 20 Mai 2016 (http://www.bbc.co.uk/mediacentre/latestnews/2016/bbc-nma-partnership)

at glywed ei gasgliadau a pha gamau ymarferol a fydd yn arwain at fynd i'r afael â'r diffyg newyddion yng Nghymru.

Rydym yn falch bod y BBC yn mynd ati i chwilio am ffyrdd o helpu i wella gwaith craffu ar ddemocratiaeth leol yn y DU. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y gallai'r cynlluniau i osod newyddiadurwyr y BBC yn sefydliadau'r cyfryngau lleol arwain at y canlyniad anfwriadol fod y sefydliadau hyn yn ymateb drwy gyfyngu ar eu darpariaeth eu hunain yn y meysydd hyn.

Rydym yn bwriadu dilyn y datblygiadau yn y maes hwn yn agos, ond yn credu y gellid lleddfu llawer o'n pryderon pe byddai'r BBC yn lle hynny yn buddsoddi mewn gwasanaeth penodol i ddarparu newyddion lleol i'w ddefnyddio gan sefydliadau cyfryngau lleol. Dylai gwasanaeth o'r fath ganolbwyntio ar feysydd o fethiant marchnad penodol a lle mae newyddiaduraeth leol wedi dirywio, er enghraifft, newyddion am gynghorau a llysoedd lleol.

**Argymhelliad 4.** O ystyried ein pryderon ynghylch canlyniadau anfwriadol posibl y dull y mae'r BBC wedi'i fabwysiadu, rydym yn argymell y dylai'r BBC adolygu'n feirniadol ei chynlluniau i ymgorffori newyddiadurwyr y BBC mewn sefydliadau cyfryngau lleol. Rydym yn argymell hefyd fod y BBC yn ystyried buddsoddi mewn gwasanaeth penodol ar gyfer darparu newyddion lleol y gellir ei ddefnyddio gan sefydliadau'r cyfryngau lleol ar faterion lle mae newyddiaduraeth leol wedi dirywio, fel newyddion am gynghorau a llysoedd lleol.

## Stiwdios y BBC

**24.** Bwriad y BBC yw y bydd ei hadran gynhyrchu - Stiwdios y BBC - yn dod yn is-gwmni masnachol sy'n eiddo llawn i Grŵp y BBC ac yn gweithredu yn y farchnad. Byddai'n cynhyrchu rhaglenni ar gyfer y BBC a darlledwyr eraill yn y DU ac yn rhyngwladol, ac yn dychwelyd yr holl elw i Grŵp y BBC.

**25.** Fel rhan o'r cynlluniau hyn, mae'r BBC hefyd yn cynnig dileu ei gwarant fewnol gyffredinol o 50 y cant, sy'n golygu y byddai cynhyrchwyr allanol yn gallu cystadlu am gyfran llawer mwy o wariant comisiynu rhwydwaith y BBC.

**26.** Ym mis Medi 2016 cyhoeddodd y BBC[16] y gyfres deledu rhwydwaith gyntaf i gael ei rhoi allan i dendr cystadleuol, fel rhan o'i chynllun i gyflwyno mwy o gystadleuaeth i'r broses o gynhyrchu comisiynau ar gyfer y rhwydwaith. Cytunodd y BBC i ryddhau 40 y cant o'i gwarant fewnol bresennol mewn mathau penodol i gystadleuaeth dros y ddwy flynedd nesaf, a bydd hyn yn cael ei ymestyn dros gyfnod y Siarter.

**27.** Ar 13 Hydref 2016, cyhoeddodd y BBC y byddai nifer y staff yn Stiwdios y BBC yn gostwng tua 300. Dywedodd y BBC[17] y "bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar bron bob safle, ond mae'r effaith fwyaf ar Loegr". Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd 27 o'r swyddi hyn yng Nghymru: 9 y cant o gyfanswm y swyddi a gollir, sy'n fwy na gwariant rhwydwaith y BBC yng Nghymru, sef 7.8 y cant.

[16] Y BBC yn enwi'r rhaglenni cyntaf mewn cynllun tendro cystadleuol newydd, 20 Medi 2016 (http://www.bbc.co.uk/mediacentre/latestnews/2016/BBC-first-shows-competitive-tendering)
[17] Ailffurfio Stiwdios y BBC ar gyfer cyfnod newydd, 13 Hydref 2016 (http://www.bbc.co.uk/mediacentre/latestnews/2016/reshaping-studios)



Ymweliad y Pwyllgor i BBC Studios, Medi 2016

**28.** Dywedodd Mr Talfan Davies wrth y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y llynedd y "gallai'r cynigion ar gyfer Stiwdios y BBC o bosibl sicrhau bod Porth y Rhath yn brif ganolfan ar gyfer cynhyrchu drama yn y DU ar gyfer y BBC, yn ogystal â gwerthu syniadau i gynulleidfaoedd byd-eang". Dywedodd wrth y Pwyllgor hwn y "bydd y cyfleoedd i'r sector annibynnol yn aruthrol yn sgil cael gwared ar y warant fewnol o 50 y cant".

**29.** Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryder ynghylch cynigion Stiwdios y BBC ym mhroses yr Adolygiad o'r Siarter. Mewn llythyr a anfonwyd at yr Arglwydd Hall ar ôl cyhoeddi y bydd swyddi yn cael eu colli, dywedodd Alun Davies AC, Gweinidog Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb am bolisi darlledu:

> "We are not persuaded that a significant scaling back of BBC in-house production - which may well be the outcome of an entirely market driven approach to commissioning within the BBC - would be beneficial overall. We are concerned about the potential impact that any such scaling back might have on the BBC's production hubs in the nations and regions, such as Roath Lock studios in Cardiff Bay, especially as Ofcom has yet to give a view on whether the quotas for production in the nations and regions will change when it sets the BBC's operating licences in due course. This announcement shows that we are right to be concerned. As the quotas for independent production are also unchanged, there is no guarantee either that any reduction in BBC production in Wales will be offset by more successful commissions from our independent production sector."

### Ein barn ni

Rydym yn pryderu ynghylch yr effaith y gallai dyfodiad Stiwdios y BBC ei chael ar allu'r BBC i gyflawni ei thargedau gwariant rhwydwaith rhanbarthol a chenedlaethol. Credwn y dylai'r BBC ac Ofcom fonitro'r sefyllfa i sicrhau bod y targedau hyn yn cael eu cyrraedd.

Rydym hefyd yn rhannu pryder Llywodraeth Cymru ynghylch dyfodol Stiwdios Porth y Rhath unwaith na all y BBC warantu mwyach fod y cynyrchiadau drama a gaiff eu gwneud yno ar hyn o bryd yn parhau i gael eu gwneud gan y BBC.

Er y bydd Stiwdios y BBC yn rhydd o dan y trefniant newydd i wneud cais am gomisiynau gan ddarlledwyr eraill, nid oes unrhyw warant - a rhaid bod cryn amheuaeth - y bydd yn gallu gwneud hynny yn llwyddiannus.

## Llywodraethu

**30.** Mae'r Siarter newydd ar gyfer y BBC yn cynnig nifer o newidiadau i drefniadau llywodraethu'r BBC. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Diben cyhoeddus cryfach, sy'n nodi bod yn rhaid i'r BBC "adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU a, thrwy wneud hynny, gefnogi'r economi greadigol ledled y DU".
- Cafodd trefniadau atebolrwydd rhwng y BBC, Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru eu sefydlu mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth[18] yn gynharach eleni. Mae'r rhain wedi cael eu hailddatgan yn y Siarter newydd, sy'n nodi bod yn rhaid i'r BBC gydymffurfio â cheisiadau i roi tystiolaeth neu i gyflwyno adroddiadau i bwyllgorau'r Cynulliad yn yr un modd ag y maent yn ei wneud gyda phwyllgorau Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Rhaid ymgynghori â Llywodraeth Cymru os caiff y Siarter ei hadolygu neu ei hadnewyddu.
- Rhaid i gynllun, adroddiad a chyfrifon blynyddol y BBC gynnwys manylion am y ddarpariaeth ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU.
- Bydd gan Fwrdd newydd y BBC – a fydd yn llywodraethu'r BBC – gyfarwyddwr anweithredol o Gymru, a bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno ar ei benodiad. Roedd yr Arglwydd Hall yn feirniadol o'r cynigion cychwynnol (yn Adolygiad Clementi[19]) i hanner aelodau'r bwrdd gael eu penodi gan Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, ar ôl cyhoeddi'r Siarter Ddrafft[20], dywedodd:

  > "The BBC is a public service broadcaster - not a state broadcaster. I am glad they (the UK Government) have reconsidered. There will now be an equal number of board-appointed Non-Executive Directors alongside the ones appointed by the Government. And there will now be four Executive directors on the board too. An independent and strong BBC is what the public want and demand."

- Mae gan Ofcom rôl newydd wrth reoleiddio'r BBC, gan gynnwys sicrhau bod cynulleidfaoedd yn y gwledydd unigol yn cael eu "gwasanaethu'n dda". Rhaid i Ofcom "sicrhau y darperir rhaglenni a gwasanaethau sy'n fwy unigryw" ar y BBC.

**31.** Yn ogystal â rheoleiddio'r cynnwys, bydd Ofcom yn gyfrifol am sicrhau bod "cyfran addas" o raglenni rhwydwaith yn cael eu cynhyrchu y tu allan i Lundain, gan gynnwys ym mhob un o wledydd y DU. Yn 2006, gosododd y BBC darged i fuddsoddi 17 y cant o'i gwariant cyffredinol ar y rhwydwaith yn y gwledydd datganoledig, sy'n cyd-fynd yn fras â maint poblogaeth y gwledydd hynny gyda'i gilydd:

---

[18] Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'r BBC
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/520003/Welsh_MoU.pdf
[19] Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu a Rheoleiddio y BBC, Mawrth 2016
https://www.gov.uk/government/publications/a-review-of-the-governance-and-regulation-of-the-bbc
[20] Datganiad y BBC ar Drefniant a Siarter Newydd Ddrafft, 15 Medi 2016
http://www.bbc.co.uk/mediacentre/latestnews/2016/statement-on-draft-charter

rhagorwyd ar y targed hwnnw yng Nghymru. Nid yw Llywodraeth y DU yn bwriadu lleihau'r targed gofynnol hwn.

**32.** Mae'r Arglwydd Hall hefyd wedi cyhoeddi ei fwriad i sefydlu:

- Is-bwyllgor o'r Bwrdd ar gyfer pob gwlad gan oruchwylio eu gwasanaethau pwrpasol. Rhoddodd fwy o fanylion am y syniad hwn pan roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor, gan nodi:

> "What I've also proposed, but, again, it depends on the new chair, is that the non-executive director who is appointed in conjunction with the Senedd, that person and maybe one other non-executive director, plus Rhodri, plus—my own view is, but this is only my own view—maybe a couple of people from outside the BBC, but representing Wales, should then hold to account the director of Wales for delivery of the objectives we set out in the service licence agreement."

- "Trwydded" ar wahân ar gyfer yr holl wasanaethau pwrpasol a ddarperir i gynulleidfaoedd ym mhob un o'r gwledydd. Dywedodd Mr Talfan Davies wrth y Pwyllgor y byddai'r drwydded hon yn "crisialu ymrwymiadau'r BBC i Gymru ac o safbwynt gweithredol" y gallai fod yn "fantais fawr o ran gwella atebolrwydd".
- Nododd y byddai sefydlu'r drwydded yn benderfyniad ar gyfer cadeirydd newydd y BBC, mewn trafodaeth ag Ofcom.

**33.** Dywedodd yr Arglwydd Hall wrth y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol fis Tachwedd diwethaf

> "mai cryfder y cynnig hwn yw bod gan Rhodri, neu bwy bynnag yw'r cyfarwyddwr yng Nghymru, lawer mwy o awdurdod i wneud penderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar Gymru yng Nghymru."

**34.** Ym mis Medi, penododd y BBC[21] Ken McQuarrie, cyn-gyfarwyddwr BBC yr Alban, i rôl newydd fel Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau. Dywedodd y BBC y byddai'n gyfrifol am "ddwyn ynghyd a gwella cynnig y BBC i wledydd a rhanbarthau'r DU". Bydd y Cyfarwyddwr yn dod yn aelod o bwyllgor gweithredol newydd y BBC. Roedd swydd Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau wedi'i diddymu'n flaenorol yn 2009. Ymhlith cyfrifoldebau Mr McQuarrie mae:

- Cynrychioli llais cynulleidfaoedd y tu allan i Lundain.
- Cyfrifoldeb golygyddol am yr holl gynnwys a gynhyrchir gan dimau gwledydd a rhanbarthau'r BBC.
- Nodi arbedion yn y gwledydd a'r rhanbarthau fel y gellir rhyddhau mwy o arian ar gyfer cynnwys.

**35.** Eglurodd yr Arglwydd Hall i'r Pwyllgor ei resymeg dros atgyfodi'r hen swydd hon fel a ganlyn:

---

[21] Pennaeth BBC yr Alban, Ken MacQuarrie yn cael rôl cyfarwyddwr newydd y DU gyfan, 22 Medi 2016 (http://www.bbc.co.uk/news/uk-scotland-37440265)

> "What I'm trying to do is make sure that, for every public purpose, I've got one person who is absolutely accountable to me to pull together what the BBC is doing right across the piece."

**36.** Eglurodd hefyd ei fod wedi sefydlu fforwm y DU sy'n dwyn ynghyd gyfarwyddwyr y gwledydd, ac mai ef yw cadeirydd y fforwm.

**Ein barn ni - Llywodraethu**

Yr hyn sydd ar goll yn y maes hwn ac yn un o'r prif wahaniaethau rhwng y trefniadau presennol a'r rhai newydd yw rôl glir i'r gynulleidfa. Mae angen i'r trefniadau newydd sicrhau bod llais y gynulleidfa yn cael ei ddal a'i gynrychioli yn y strwythurau llywodraethu newydd. Nid ydym yn argyhoeddedig bod y strwythurau arfaethedig yn rhoi digon o bwys i lais y gynulleidfa hyd yma.

**Ein barn ni - Cyfarwyddwyr y BBC**

Er ein bod wedi nodi rhesymeg y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer atgyfodi swydd Cyfarwyddwr Gwledydd a Rhanbarthau'r BBC, rhaid inni fynegi cryn siom y bydd Cyfarwyddwr BBC Cymru yn colli aelodaeth y corff gweithredol sy'n rhedeg y BBC. Nid ymddengys inni fod fforwm newydd y DU, y bydd yr Arglwydd Hall yn ei gadeirio, yn cynnig yr un lefel o ddylanwad a ddarperir yn sgil cael cynrychiolaeth uniongyrchol ar y Pwyllgor Gweithredol newydd.

Hoffem groesawu Mr Ken McQuarrie i swydd newydd Cyfarwyddwr Gwledydd a Rhanbarthau'r BBC. Mae ganddo swydd anodd. Ni fydd cynrychioli a chydbwyso anghenion amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU yn dasg hawdd. Er ein bod yn dymuno'n dda iddo, rydym yn parhau hb ein hargyhoeddi y gall un unigolyn gyflawni'r rôl hon yn effeithiol. Yn anffodus, oherwydd yr amser cyfyngedig a oedd ar gael inni i gwestiynu'r Arglwydd Hall pan ymddangosodd gerbron y Pwyllgor, roedd yn rhaid inni wrthod ei gynnig i Mr McQuarrie fynychu'r cyfarfod. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu ei wahodd i un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol pan fyddwn am glywed sut y mae'n bwriadu sicrhau cydbwysedd rhwng y galw am gynrychiolaeth (yn hytrach na chynhyrchu) ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau.

**Ein barn ni - Trwydded Gwasanaeth ar gyfer BBC Cymru**

Rydym yn croesawu'r cysyniad o 'drwydded' ar wahân fel y disgrifir gan BBC Cymru yn cwmpasu'r gwasanaethau amrywiol a ddarperir gan y BBC ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru. Credwn y gallai hyn fod yn welliant ar y sefyllfa bresennol, lle mae pob un o'r gwasanaethau yng Nghymru yn cael ei ystyried ar wahân fel is-set o wasanaethau yn y DU. Bydd trwydded gwasanaeth unigol yn caniatáu i gyfanrwydd y gwasanaeth i Gymru gael ei ystyried yn y rownd, heb fod yn droednodyn i faterion eraill.

Rydym yn edrych ymlaen at glywed mwy am y cynnig hwn a sut y gall helpu i ysgogi gwelliant, gan dybio bod Cadeirydd newydd y BBC yn cytuno i'w gyflwyno ar ôl trafodaeth gydag Ofcom. Os caiff ei gyflwyno, yna mae'n bwysig ei fod yn cynnwys ymrwymiadau mesuradwy penodol ynghylch yr hyn y disgwylir i BBC Cymru ei gyflawni.

Yn olaf, rydym yn nodi y bydd angen caniatâd Llywodraeth Cymru cyn y gellir penodi aelod newydd o Fwrdd y BBC ar gyfer Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi dweud[22] wrth Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes y dylai'r Cynulliad fod â rhan yn y broses gadarnhau. Atebodd y Gweinidog[23] ei fod o blaid 'gwrandawiadau cadarnhau' ar gyfer y penodiad hwn. Dywedodd hefyd y bydd y broses benodi yn cael ei rheoli gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, ni ellir penodi rhywun hyd nes y bydd Llywodraeth Cymru wedi rhoi ei chaniatâd.

Felly, ymddengys nad oes rheswm pam na ddylai'r Pwyllgor allu cynnal gwrandawiad cyn penodi gydag enwebai Llywodraeth y DU cyn i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylid cydsynio â'r enwebiad.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell na ddylai Llywodraeth Cymru roi ei chaniatâd i benodi aelod newydd Bwrdd y BBC ar gyfer Cymru hyd nes y caiff y Pwyllgor gyfle i gynnal gwrandawiad cyn penodi gydag enwebai Llywodraeth y DU ar gyfer y swydd.

[22] Cadeirydd y Pwyllgor at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, 22 Medi 2016
[23] Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes at Gadeirydd y Pwyllgor, 24 Hydref 2016

# 02. S4C



Ymweliad y Pwyllgor i S4C Studios, Medi 2016

## Cyllid

**37.** Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn Llywodraeth y DU ddyletswydd statudol i sicrhau bod S4C yn cael cyllid digonol i gyflawni ei gylch gwaith fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

**38.** Yn dilyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU yn 2010, roedd S4C yn wynebu toriadau i'w gyllid a newidiadau i sut yr oedd y cyllid hwnnw'n cael ei ddarparu. Er bod y rhan fwyaf o refeniw S4C wedi cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU o'r blaen a'i fod yn gysylltiedig â chwyddiant, o fis Ebrill 2013 byddai'r rhan fwyaf o'r cyllid hwnnw yn dod drwy Ymddiriedolaeth y BBC o ffi'r drwydded, gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn parhau i ddarparu grant bach.

**39.** Yn 2011-12, o dan y trefniadau blaenorol, cafodd S4C £101 miliwn gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cafodd y cyllid hwnnw ei leihau i tua £7 miliwn y flwyddyn o 2013-14, gyda'r BBC yn darparu £76.3 miliwn. Bu gostyngiad pellach i £74.5 miliwn yn elfen y BBC yn 2016-17. Mae Siarter newydd y BBC yn nodi y bydd y cyllid hwn o ffi'r drwydded yn aros yn gyson mewn termau arian parod tan 2020-21 (gostyngiad mewn termau real o tua 10 y cant erbyn 2020-21). Yn gyffredinol, mae'r newidiadau wedi golygu bod S4C wedi wynebu toriadau i'w gyllideb sy'n o leiaf 36 y cant mewn termau real ers 2010. Mae cyfraniad presennol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn parhau ar yr un lefel â 2015-16 (£6.8 miliwn) yn 2016-17, gan aros am gasgliadau adolygiad Llywodraeth y DU i S4C, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2017. Mae S4C wedi croesawu'r "elfen o sefydlogrwydd" a ddarperir gan setliad ffi'r drwydded. Fodd bynnag, mae wedi nodi'r pwysau yn sgil y ffaith bod hyn yn setliad gwastad: sy'n golygu gostyngiad mewn termau real mewn cyllid dros y cyfnod hwn.

**40.** Yn ei adroddiad ar yr Adolygiad o Siarter y BBC,[24] galwodd Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad blaenorol y toriad termau real o 36 y cant i gyllideb S4C ers 2010 yn "ddifrifol ac yn anghymesur".

**41.** Tynnodd Ian Jones (Prif Swyddog Gweithredol S4C) sylw'r Pwyllgor at lythyr gan y cyn-Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol at y BBC ym mis Gorffennaf 2015 a oedd yn nodi:

> "The BBC's grant to S4C may be reduced by an equivalent percentage reduction in funding to the percentage reduction made to BBC funding over the period."

ac

> 'It will be up to the Government to decide how to make up the shortfall."

**42.** Nododd ei bod yn bwysig, yn sgil adolygiad arfaethedig Llywodraeth y DU o S4C y bwriedir ei gynnal yn 2017, ystyried y "gyllideb gyfannol" a "diogelu'r arian a ddaw o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar hyn o bryd".

**43.** Yn ôl S4C,[25] mae effaith y toriadau hyn ers 2010 wedi bod yn sylweddol. Rhoddodd y sianel orau i ddarparu ei wasanaeth HD yn 2012 - ond cafodd ei hail-lansio ym mis Mehefin 2016; mae ei fuddsoddiad mewn rhaglenni plant wedi lleihau; mae diffyg mewn dramâu gwreiddiol wedi bod am sawl mis o'r flwyddyn; ac mae'n fwy anodd i'r sianel gystadlu am hawliau chwaraeon poblogaidd. Dywedodd Ian Jones yn 2013[26] y byddai unrhyw doriadau pellach i gyllideb S4C yn "niweidiol i'r economi ac y byddai'n torri'r gwasanaeth craidd i'r byw".

**44.** Dywedodd Mr Jones wrth y Pwyllgor "er gwaethaf y toriad o £65 miliwn yn y gyllideb, fod y sianel wedi cynnal ei horiau darlledu".

**45.** Fodd bynnag, nododd:

> "In 1982, when S4C launched, we had a target of 20 per cent repeats on screen—so, repeated programmes. We're now at 57 per cent, which, in my view, is far too high."

**46.** Nododd hefyd fod nifer y staff yn S4C dros gyfnod o chwe mlynedd wedi lleihau o 220 i lai na 130. Ar ôl symud i Gaerfyrddin mae S4C yn bwriadu cydleoli ei weithrediadau technegol gyda'r BBC. Bydd nifer o staff S4C yn symud i weithio i'r BBC, sy'n golygu y bydd gan S4C tuag 80 aelod o staff.

**47.** Dywedodd wrth y Pwyllgor fod S4C wedi lleihau ei gostau cyffredinol i "o gwmpas 4 y cant", o gymharu â "chyfartaledd o gwmpas 11 neu 12 y cant yn y sector cyhoeddus". Ar ben hynny, mae wedi lleihau ei gostau comisiynu 35 y cant. Erbyn hyn, cost S4C fesul awr yw £10,800: yr isaf erioed.

---

[24] Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol - Ymchwiliad i'r Adolygiad o Siarter y BBC (http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=13600&AIID=24622)
[25] Cyflwyniad i Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol - Adolygiad o Siarter y BBC, 30 Hydref 2015 (http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s45570/CELG%204-27-15%20Papur%201%20Pecyn%20Atodol.pdf)
[26] Ian Jones - Erthygl ar gyfer y Sefydliad Materion Cymreig, 6 Awst 2013 (http://www.iwa.wales/click/2013/08/more-cuts-will-shake-s4cs-foundations/)

**48.** Ar nodyn cadarnhaol, dywedodd, er gwaethaf cyfyngiadau ar y gyllideb, fod S4C wedi rhagori ar ei ofynion is-deitlo:

> "Ofcom set us a limit of 53 per cent of our output that has to be subtitled; we made the decision some years ago to increase that, and we're currently at around 79 per cent. I would like to maintain that at that level, but, again, it's something we need to look at over the next few years, as the real-term cuts set in."

**Ein barn ni**

Rydym yn cytuno â chasgliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn y Cynulliad blaenorol fod y toriad termau real o 36 y cant i gyllideb S4C ers 2010 yn ddifrifol ac yn anghymesur. Rydym yn poeni'n fawr am yr effaith ddifrifol y mae'r toriadau parhaus i gyllideb S4C ers 2010 wedi'i chael. Er y bydd "elfen o sefydlogrwydd" yn cael ei darparu gan y bydd cyllid o ffi'r drwydded yn aros yn gyson tan 2020-21, mae hyn yn dal i gynrychioli toriad termau real pellach o tua 10 y cant.

Un ffordd amlwg y mae'r gostyngiad hwn mewn cyllid wedi amlygu ei hun yw yn y lefel uchel iawn o ailddarllediadau sydd bellach yn cael eu dangos ar y sianel. Rydym yn cytuno gydag S4C bod hyn, ar 57 y cant, yn llawer rhy uchel ac yn fater o bryder sylweddol inni.

Bydd adolygiad arfaethedig Llywodraeth y DU eleni yn cynnig cyfle i edrych ar yr ystod lawn o faterion sy'n effeithio ar S4C ar hyn o bryd, gan gynnwys yr hyn a olygir gan gyllid teg i'r sianel. Fel Pwyllgor, rydym yn bwriadu chwarae rhan mor lawn â phosibl yn yr adolygiad hwnnw drwy gynnal darn sylweddol o waith ar S4C, y byddwn yn ei gynnwys yn adolygiad Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, rhaid sicrhau nad oes unrhyw newid pellach i gyllid S4C hyd nes bod canlyniadau'r adolygiad wedi cael eu hystyried yn llawn gan bawb.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell na ddylai fod unrhyw doriadau pellach i gyllid S4C hyd nes bod yr adolygiad arfaethedig wedi'i gwblhau a bod pawb sydd â rhan yn nyfodol S4C wedi cael cyfle i fyfyrio ar ei gasgliadau.

## Codi refeniw

**49.** Dywedodd S4C wrth y Pwyllgor fod tua 2 y cant o'i incwm yn cael ei gynhyrchu gan ei gweithgareddau masnachol ei hun. Eglurodd Mr Ian Jones i'r Pwyllgor rai o'r anawsterau sy'n gysylltiedig ag ymdrechion S4C i gynyddu'r ffigur hwn.

**50.** Mae'r anawsterau hyn yn cynnwys gostyngiad mewn incwm hysbysebu, o tua £10 miliwn y flwyddyn chwech neu saith mlynedd yn ôl, i tua £2 filiwn y flwyddyn. Mae hyn yn deillio o'r ffaith nad yw S4C a Channel 4 yn rhannu'r un gofod darlledu yng Nghymru mwyach.

**51.** Nododd Mr Jones y byddai'n hoffi cynyddu cyfran yr incwm a gynhyrchir i 3 neu 4 y cant, ond y byddai'n "anodd iawn, iawn i wneud mwy na hynny".

## Llywodraethu ac atebolrwydd

**52.** O dan y ddeddfwriaeth berthnasol, mae'n ddyletswydd ar Awdurdod S4C i sicrhau bod S4C yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o ran darlledu gwasanaethau cyhoeddus, sef darparu ystod eang o raglenni amrywiol o ansawdd uchel, yn ogystal â gwybodaeth, addysg ac adloniant i'r cyhoedd yng

Nghymru. Mae Awdurdod S4C yn atebol yn y lle cyntaf i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a San Steffan, ac yn ail i'r BBC yn dilyn y trefniadau cyllido newydd sydd ar waith ers 2013.

**53.** O ran Siarter newydd y BBC, dywedodd Mr Jones wrth y Pwyllgor:

> "We welcome the clear references to S4C in the framework agreement and the charter documentation, because they clearly commit to the independence of S4C and they give a clear recognition of funding for the next five years."



Ymweliad y Pwyllgor i S4C Studios, Medi 2016

**54.** Wrth drafod datganoli'r cyfrifoldeb dros S4C i Lywodraeth Cymru, dywedodd Mr Jones nad oedd ots ganddo pwy sy'n ariannu S4C - Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru - ond dywedodd fod "atebolrwydd yn mynd law yn llaw â'r arian".

**55.** Yn ei adroddiad ar yr Adolygiad o Siarter y BBC,[27] roedd Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad blaenorol yn argymell fel a ganlyn

> "Dylai llinellau atebolrwydd rhwng S4C a'r Cynulliad gael eu ffurfioli drwy gytundeb a fydd yn rhwymo S4C i gyflwyno adroddiadau blynyddol a chyfrifon archwiliedig i'r Cynulliad, ac i ymddangos gerbron pwyllgorau Cynulliad."

**56.** Cododd yr Aelodau'r mater hwn â Mr Jones, a dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai'n "fodlon iawn" ffurfioli'r berthynas rhwng S4C a'r Cynulliad yn y modd hwn. Ailadroddodd Mr Huw Jones y parodrwydd hwn mewn gohebiaeth ddilynol.[28]

**57.** O ran ei gylch gwaith, mae S4C yn nodi nad yw ei gylch gwaith statudol yn cynnwys darparu gwasanaethau digidol, sydd hyd yma wedi'u hariannu gyda refeniw masnachol S4C. Mae'n nodi bod hyn yn "enghraifft glir o sut y mae angen diweddaru'r cylch gwaith". Disgrifiodd Mr Jones y cylch gwaith presennol fel un "hynafol", ac yn rhywbeth yr oedd angen edrych arno yn adolygiad arfaethedig Llywodraeth y DU.

**58.** Ar ben hynny, mae'r cylch gwaith presennol yn nodi:

---

[27] Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol - Ymchwiliad i'r Adolygiad o Siarter y BBC (http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=13600&AIID=24622)
[28] Llythyr gan S4C at Gadeirydd y Pwyllgor, 24 Hydref 2016 (http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s56106/Papur%201.pdf)

> "Providing television programme services of high quality with a view to their being available for reception wholly or mainly by members of the public in Wales."

**59.** Disgrifiodd Mr Jones y datganiad hwn fel "anathema", gan nodi "bod angen i'r sianel ddarlledu i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr lle bynnag y bônt - nid dim ond yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru". Nododd hefyd, o ran nod Llywodraeth Cymru i sicrhau 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg, ei bod hi'n "anodd dychmygu cynnydd mawr yn nifer y siaradwyr Cymraeg oni bai bod gwasanaethau a chynnyrch cryf gan y cyfryngau".

### Ein barn ni

Rydym yn croesawu parodrwydd S4C i ffurfioli ei gydberthynas â'r Cynulliad drwy gyflwyno ei adroddiadau blynyddol a chyfrifon archwiliedig i'r Cynulliad. Mae ei barodrwydd i ymddangos gerbron Pwyllgorau'r Cynulliad i'w ddisgwyl, ond rydym yn ei groesawu serch hynny.

Er mwyn i S4C allu gosod ei gyfrifon a'i adroddiadau blynyddol gerbron y Cynulliad, yn gyntaf bydd angen i'r Cynulliad gytuno ar benderfyniad y dylai wneud hynny. Felly, rydym yn bwriadu cyflwyno cynnig i'w ystyried gan y Cynulliad y dylai S4C, yn amodol ar gytundeb ffurfiol Awdurdod S4C, osod gerbron y Cynulliad adroddiadau blynyddol a'u datganiadau archwiliedig o gyfrifon.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno y dylai Awdurdod S4C osod adroddiadau blynyddol a datganiadau archwiliedig o gyfrifon gerbron y Cynulliad.

## Y gydberthynas â'r BBC

**60.** Mae rhwymedigaeth statudol ar y BBC i ddarparu 10 awr yr wythnos o raglenni Cymraeg am ddim i S4C. Mae gwerth y cyflenwad hwn wedi lleihau o £25 miliwn yn 2008-9 i £19.7 miliwn yn 2014-15[29]. Bydd y bartneriaeth bresennol[30] rhwng S4C a'r BBC yn dod i ben ar ddiwedd Siarter bresennol y BBC ar ddechrau 2017. Dywedodd Mr Jones wrth y Pwyllgor ym mis Hydref 2016, nad yw'r cytundeb hwn wedi'i ailnegodi hyd yma.

**61.** Disgrifiodd Mr Jones wrth y Pwyllgor y broses a ddilynwyd gan S4C a'r BBC i gytuno ar eu cydberthynas weithredol ar ôl i'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer S4C gael ei drosglwyddo o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i'r BBC. Nododd y tensiwn lle roedd y BBC yn gweld ei hun fel gwarcheidwad ffi'r drwydded, ond bod S4C yn awyddus i ddiogelu ei annibyniaeth. Disgrifiodd y cytundeb gweithredu rhwng y ddau gorff fel y "mecanwaith a oedd yn caniatáu i'r ddau beth hyn gael eu cyflawni". Yn dyngedfennol i hyn roedd llinell yn y cytundeb gweithredu sy'n nodi bod S4C yn cadw annibyniaeth olygyddol, rheolaethol a gweithredol.

**62.** Disgrifiodd Mr Jones y gydberthynas rhwng y ddau fel "cyfnod pedair blynedd cadarnhaol iawn":

---

[29] Archwiliad o'r Cyfryngau 2015 - Sefydliad Materion Cymreig (http://iwa.wales/wp-content/uploads/2016/01/IWA_MediaAudit_v4.pdf)
[30] BBC Cymru ac S4C yn adnewyddu cytundeb partneriaeth strategol, Tachwedd 2012 (http://www.bbc.co.uk/mediacentre/latestnews/2012/s4c-strategic-partnership-renewal-2012)

> “There’s been on the one hand, a good relationship in terms of our relationship with the trust – we’ve had a trust member on the S4C authority – and then there’s been a good partnership at an executive level, which has allowed, for example, the development of the plans to co-located technical aspects in Cardiff and also, for example, the availability of S4C on the iPlayer, which has been a great benefit.”

**63.** Roedd Mr Jones yn rhagweld y byddai’r gydberthynas rhwng S4C a’r BBC yn newid o ganlyniad i’r trefniadau o dan Siarter newydd y BBC. Roedd yn disgwyl y canlynol:

> “The relationship will become more of a contractual one where … the implication is that S4C will account to the BBC for the fact that the money has been used for the purpose intended.”

**64.** Fodd bynnag, nododd fod y symbyliad ar gyfer gwaith ar y cyd rhwng y ddau sefydliad yn parhau i fodoli, gan ddweud:

> “If we’re two independent broadcasters funded from the licence fee, I feel there’s an onus on us both to look at our joint partnerships, to look at making our resources go further … and working together, whether that’s creative collaboration on something like Y Gwyll, whether its platform collaboration with the iPlayer, or whether it’s anything else.”

### Ein barn ni

Rydym yn gwerthfawrogi annibyniaeth S4C a chredwn fod y cydweithrediad rhyngddo a BBC Cymru wedi bod o fudd i gynulleidfaoedd. Er y gallai fod wedi bod yn drefniant o ran cyfleustra i ddechrau, ymddengys bellach fod S4C a’r BBC wedi creu eu cydberthynas yn un sydd o fudd i’r ddwy ochr.

Er ein bod yn derbyn y bydd yn rhaid iddo newid a datblygu yn sgil amgylchiadau sy’n newid, fel Siarter newydd y BBC, credwn y dylai’r gydberthynas barhau fel cydberthynas gydweithredol sydd o fudd i’r ddwy ochr, yn greadigol ac o ran defnyddio adnoddau. Byddem yn pryderu pe byddai’r gydberthynas yn llithro yn ôl i un yn seiliedig yn syml ar rwymedigaethau cytundebol neu gyfrifeg.

## Yr effaith ddiwylliannol ac economaidd

**65.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor, mae S4C yn dyfynnu o adroddiad sy’n nodi bod bob punt a fuddsoddir gan S4C yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn werth £2.09 i’r economi. Mae hefyd yn nodi bod 81 y cant o’i harian yn “mynd yn uniongyrchol i’r sector cynhyrchu annibynnol”.

**66.** Yn 2018, bydd S4C yn symud i Gaerfyrddin. Mae’n nodi bod bron i 30 o sefydliadau eraill wedi mynegi eu bod yn awyddus i symud gydag S4C i Gaerfyrddin, a’i fod yn gobeithio “gweithredu fel catalydd ar gyfer creu clwstwr bywiog ac arloesol yng ngorllewin Cymru”.

**67.** Eglurodd Mr Jones i’r Pwyllgor y rhesymeg dros symud:

> “Gwnaethom ni gomisiynu astudiaeth dichonolrwydd… a daeth yn amlwg yn weddol gyflym y byddai’r impact mwyaf yn cael ei greu, a’r arbedion mwyaf yn cael eu creu, pe byddem ni’n gallu adleoli pencadlys S4C y tu allan i

Gaerdydd—a pham na ddylem ni? Beth yw'r pwynt o gael pencadlys ar ystâd ddiwydiannol yng ngogledd Caerdydd pan gallwn ni greu mwy o impact economaidd, ieithyddol a diwylliannol y tu allan i Gaerdydd?"

**68.** Dywedodd ei fod yn "hyderus y byddwn yn arbed arian dros 20 neu 25 mlynedd".

**69.** Ers i'r Pwyllgor gael tystiolaeth gan S4C, mae rhai pryderon wedi dod i'r amlwg[31] ynghylch cyllid yr adeilad newydd yng Nghaerfyrddin a fydd yn gartref i bencadlys newydd S4C. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon hyn ac yn edrych ymlaen at eu datrys.

### Ein barn ni

Yn y cyfnod aml-sianel, mae amlygrwydd yn y Canllaw Rhaglenni Electronig yn bwysig o hyd i ddarlledwr, yn wir mae llywio drwy'r llu o sianeli sydd ar gael erbyn hyn yn ôl pob tebyg yn ei gwneud hyd yn oed yn fwy pwysig.

Mae Ofcom yn rheoleiddio'r maes hwn ac mae'r Cod Ymarfer ar gyfer darparwyr Canllaw Rhaglenni Electronig yn nodi bod yn rhaid rhoi graddau o amlygrwydd y mae Ofcom yn eu hystyried sy'n briodol i restru sianeli darlledu gwasanaethau cyhoeddus.[32] Fodd bynnag, mewn adroddiad y llynedd, mynegodd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig[33] bryder ynghylch y mater hwn ac roedd yn galw ar sianeli Darlledu Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys S4C, i fod yn fwy amlwg yn y Canllawiau.

Rydym hefyd yn pryderu nad yw S4C yn amlwg yn y Canllawiau, ac ar gymwysiadau sydd bellach wedi'u gosod yn barod ar lawer o setiau teledu deallus, y mae ei bwysigrwydd diwylliannol ac ieithyddol yng Nghymru yn ei haeddu. Credwn y dylai amlygrwydd S4C yn y Canllaw Rhaglenni Electronig gael ei wella'n sylweddol i adlewyrchu'r pwysigrwydd hwnnw.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU ac Ofcom yn ystyried diwygio Cod Ymarfer Ofcom ar gyfer darparwyr Canllaw Rhaglenni Electronig i sicrhau bod S4C yn amlwg yng Nghymru yn y Canllawiau Rhaglenni Electronig a chymwysiadau teledu deallus, fel gwasanaeth i-player y BBC.

---

[31] Y datblygiad a fydd yn gartref i bencadlys S4C yn ceisio grant Llywodrateh Cymru, 24 Tachwedd 2016 (http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-38099768)
[32] Yn y bôn, y BBC, Sianel 3, Sianel 4, Sianel 5 ac S4C.
[33] Y Pwyllgor Materion Cymreig - Adroddiad cyntaf 2016-17 - paragraff 104 (http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmwelaf/14/1402.htm)

# 03. ITV Cymru

## Trwydded

**70.** Yn hanesyddol, roedd Cymru yn cael ei gwasanaethu gan drwydded Sianel 3 ddeuol a oedd hefyd yn cwmpasu gorllewin Lloegr. Fodd bynnag, yn 2014 cafodd y gwasanaeth Sianel 3 ar gyfer Cymru ei thrwydded ei hun, sy'n dod i ben yn 2024.

**71.** Roedd gostyngiad sylweddol yn rhaglenni ITV ar gyfer Cymru yn 2009, yn dilyn penderfyniad Ofcom, yn rhan o'i ail Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaethau Cyhoeddus, i ganiatáu gostyngiad sylweddol i ITV. Cytunwyd ar y toriadau ar y pryd oherwydd bod y rheoleiddiwr yn rhagweld risg wirioneddol y gallai ITV ddewis ildio ei statws fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus a rhoi ei drwyddedau Sianel 3 yn ôl. Fodd bynnag, mae gostyngiad ITV Cymru mewn rhaglenni rhediad cyntaf wedi dirywio'n fwy serth yng Nghymru (2008-14) nag mewn rhannau eraill o'r DU - toriad o 30 y cant.[34]

**72.** Roedd Archwiliad y Sefydliad Materion Cymreig i'r Cyfryngau 2015[35] yn nodi bod gostyngiad ITV Cymru yn y ddarpariaeth o raglenni nad ydynt yn ymwneud â'r newyddion wedi bod yn "hollol wahanol i'r gwasanaeth ITV sydd dan berchenogaeth annibynnol yn yr Alban, sydd wedi cynyddu ei allbwn".

**73.** Ar hyn o bryd, mae'r drwydded yn ei gwneud yn ofynnol i ITV ddarparu pedair awr o newyddion a 90 munud o raglenni heblaw newyddion i Gymru bob wythnos.

**74.** Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd Phil Henfrey (Pennaeth Newyddion a Rhaglenni ITV Cymru) fod y sefydliad yn mynd y "tu hwnt i gyflawni'r gofynion o fewn y drwydded honno ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru". Dywedodd fod ITV Cymru, er gwaethaf y ffaith bod y drwydded yn cwmpasu darllediadau safonol, yn darlledu mewn manylder uwch, a hefyd bod gwasanaeth newyddion digidol yr orsaf (i ffonau symudol) y tu hwnt i ofynion ei drwydded.

**75.** Fodd bynnag, nododd fod gwerth y drwydded wedi gostwng yn sylweddol ers y 1970au a'r 1980au, pan fyddai trwydded ITV yn darparu monopoli ar gyfer hysbysebion teledu. O ganlyniad i'r gostyngiad hwn mewn gwerth, awgrymodd fod Ofcom yn gallu gosod llai o rwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus ar ddeiliad y drwydded. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> "If people want more (public service broadcasting) – and I completely understand why people would want more – then how do you increase the value of that licence to whoever holds it? Ofcom looked at that in 2008-9. It didn't find any answers."

### Ein barn ni

Nodwn farn ITV Cymru fod ITV yn rhagori ar ei ofynion trwydded ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, gyda gofid rydym hefyd yn nodi, er bod y gwasanaeth ITV sy'n eiddo annibynnol yn yr Alban wedi cynyddu ei ddarpariaeth heb fod yn newyddion yn y blynyddoedd diwethaf, mae hyn wedi dirywio ar ITV Cymru. Rydym yn gobeithio y bydd

---

[34] Archwiliad o'r cyfryngau 2015 - Sefydliad Materion Cymreig (http://iwa.wales/wp-content/uploads/2016/01/IWA_MediaAudit_v4.pdf)
[35] Archwiliad o'r Cyfryngau 2015 - Sefydliad Materion Cymreig (http://www.iwa.wales/news/2015/11/iwa-wales-media-audit-2015/)

ITV yn myfyrio ar y gwahaniaeth hwnnw ac yn cytuno bod angen iddo wneud mwy i gynyddu'r ddarpariaeth o allbwn sy'n benodol i Gymru ar ITV Cymru.

Er ei fod beth amser i ffwrdd, wrth ystyried trwydded newydd Sianel 3 ar gyfer Cymru, credwn y dylid rhoi ystyriaeth i lacio rhai o'r gofynion a osodir ar ddeiliad y drwydded yn gyfnewid am fwy o allbwn sy'n benodol Gymreig. Fodd bynnag, o ystyried na chaiff y drwydded ei hadnewyddu tan 2024, credwn fod achos i Ofcom edrych ar y materion hyn cyn bod hanner ffordd drwy'r drwydded i weld a ellir llacio rhai o'r gofynion yn gyfnewid am fwy o allbwn sy'n benodol Gymreig.

## Cyllid

**76.** Roedd Archwiliad o'r Cyfryngau a gyhoeddwyd yn 2015 gan y Sefydliad Materion Cymreig yn amcangyfrif bod ITV Cymru wedi gwario tua £7 miliwn ar wneud rhaglenni Saesneg yn 2014-15, o gymharu â £12.9 miliwn yn 2008. Mae adroddiad interim 2016 ITV ccc yn nodi bod cyfanswm refeniw allanol y cwmni ar gyfer y cyfnod o chwe mis hyd at 30 Mehefin 2016 wedi cynyddu 11 y cant i £1,503 miliwn (2015: £1,356 miliwn). O ran ei ragolygon ar gyfer y dyfodol, mae'r cwmni'n nodi fod ganddo "fantolen gryf ac mae'n parhau i weld cyfleoedd clir i fuddsoddi yn unol â'r strategaeth yn y DU ac yn rhyngwladol".

**77.** Cadarnhaodd Mr Henfrey fod lefel gwariant bresennol ITV Cymru (£7 miliwn y flwyddyn) yn "adlewyrchiad bras o'r sefyllfa sydd ohoni", gan nodi nad oedd ITV yn fodlon datgelu'r swm gwirioneddol am resymau masnachol.

**78.** Er i Mr Henfrey ddweud bod y cyllid hwn wedi bod yn "wastad fwy neu lai" ers 2008, dadleuodd "na fyddai'n canolbwyntio'n ormodol ar y ffigurau", a bod y sefydliad yn gallu gwneud llawer mwy â'r lefel sefydlog hon o gyllid oherwydd gwelliannau technolegol ac effeithlonrwydd mewnol - fel symud ITV Cymru o Groes Cwrlwys i Fae Caerdydd. Dywedodd hefyd fod "amserlen ITV Cymru yn ei chyfanrwydd yn un o'r rhannau mwyaf poblogaidd o ITV". Daeth i'r casgliad a ganlyn:

> "All the evidence in terms of viewing figures, in terms of audience appreciation, has shown that we are getting that balance (of spend and creative and commercial output) right. So, it's not simply about the amount that you're spending."



Ymweliad y Pwyllgor i ITV Studios, Medi 2016

## Cynyrchiadau rhwydwaith

**79.** Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd ITV mai un o'r cynyrchiadau allweddol ar gyfer hydref 2016 oedd ffilm fawr i goffáu hanner can mlynedd ers trychineb Aberfan, a gomisiynwyd gan rwydwaith ITV i'w darlledu ledled y DU. Yn 2014 cafodd ITV Cymru ei gomisiwn rhwydwaith cyntaf ers tua 25 mlynedd, gyda rhaglen ddogfen, My Grandfather Dylan, a gomisiynwyd gan y cwmni annibynnol Green Bay Media, i nodi canmlwyddiant geni Dylan Thomas.

**80.** Dywedodd Mr Henfrey wrth y Pwyllgor, yn sgil caffael Boom Cymru a grŵp cwmnïau cynhyrchu Twofour, lansio label cynhyrchu rhwydwaith newydd Shiver Cymru, y ffaith bod ITV yn dod yn "ganolfan ragoriaeth yng Nghymru", a'r "diogelwch a'r sefydlogrwydd yn sgil y drwydded", fod ITV Cymru mewn sefyllfa dda i fod yn "llwyfan go iawn" ar gyfer cynyrchiadau rhwydwaith.

**81.** Gofynnodd yr Aelodau i ITV Cymru pa brosesau a strwythurau mewnol sydd ar waith i annog comisiynau rhwydwaith o Gymru. Dywedodd Mr Henfrey wrth y Pwyllgor "nad oedd unrhyw rwystrau fel y cyfryw. Mae'n feritocratiaeth. Nid yw'n gweithredu cwotâu". Dywedodd hefyd fod ITV wedi "rhoi pethau ar waith sy'n gallu cynyddu ymgysylltiad â chomisiynwyr rhaglenni rhwydwaith oherwydd mai hwy, yn y pen draw, yw'r rhai fydd yn gwneud yr holl benderfyniadau". I gloi, dywedodd y "byddai'n hoffi gweld mwy o arian yng Nghymru" a bod "yr amgylchiadau'n iawn" er mwyn i hynny ddigwydd.

### Ein barn ni

Rydym yn croesawu llwyddiant diweddar, er yn gyfyngedig, ITV Cymru yn sicrhau comisiynau rhwydwaith. Fodd bynnag, nid yw'r dull laissez faire a ddisgrifiwyd gan ITV Cymru wedi arwain at leisiau Cymreig yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar rwydwaith ITV. Mae dull y sianel o gomisiynu wedi methu â dal cyfoeth cymunedau Cymru ac mae agweddau sylweddol o fywyd Cymru nad ydynt yn cael eu portreadu naill ai ar rwydwaith ITV neu ar ITV Cymru.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Stiwdios ITV yn dilyn y BBC ac yn mabwysiadu dull mwy rhagweithiol o ddatblygu rhaglenni i'w darlledu ar rwydwaith ITV, gan gynnwys pennu nodau penodol ar gyfer datblygu cynnyrch rhwydwaith o Gymru, sy'n adlewyrchu bywyd yng Nghymru.

Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, roeddem yn croesawu parodrwydd S4C i ffurfioli ei gydberthynas â'r Cynulliad drwy osod ei adroddiadau blynyddol a chyfrifon archwiliedig i'r Cynulliad a thrwy ymddangos gerbron Pwyllgorau'r Cynulliad. Ar y cam hwn, nid ydym yn cynnig ffurfioli cydberthynas y Cynulliad â darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill yn yr un modd. Fodd bynnag, o ystyried eu swyddogaeth gwasanaeth cyhoeddus a'u pwysigrwydd i fywyd diwylliannol a gwleidyddol Cymru, credwn y dylent roi gwybodaeth flynyddol i'r Cynulliad, drwy'r Pwyllgor, ar eu cynnydd o ran gwella portread o fywyd Cymru ar eu rhwydweithiau. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos ITV Cymru ond, fel mater o egwyddor dylai hefyd ymestyn i Channel 4 a Channel 5.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell y dylai ITV, Channel 4 a Channel 5 ddarparu diweddariad blynyddol i'r Cynulliad, drwy'r Pwyllgor, yn nodi gwybodaeth am y portread o Gymru ar eu rhwydweithiau.

# 04. Ofcom

## Rôl newydd yn rheoleiddio'r BBC

**82.** O dan Siarter newydd y BBC, bydd Ofcom yn ysgwyddo rôl newydd a digynsail: fel rheoleiddiwr allanol y BBC. Mae'r swyddogaeth newydd hon yn cynnwys sicrhau bod cynulleidfaoedd yn y gwledydd unigol yn cael eu "gwasanaethu'n dda". Rhaid i Ofcom "sicrhau y darperir cynnyrch a gwasanaethau mwy unigryw" ar y BBC, a bydd angen iddo ystyried anghenion y gwledydd wrth bennu trwyddedau gweithredu ar gyfer gwasanaethau'r BBC.

**83.** Yn ogystal â rheoleiddio'r cynnwys, bydd Ofcom yn gyfrifol am sicrhau bod "cyfran addas" o raglenni rhwydwaith yn cael eu cynhyrchu y tu allan i Lundain, gan gynnwys ym mhob un o wledydd y DU.

**84.** Disgrifiodd Mark Sweeney (Cyfarwyddwr Materion Rheoleiddio a'r Llywodraeth yn Ofcom) y swyddogaeth newydd hon fel a ganlyn:

> "Broadly speaking, we have three sets of responsibilities in relation to the BBC in the new dispensation, once it is put in place from April next year. The first is to ensure editorial standards are upheld across the BBC—to act as a backstop regulator for complaints in that context. The second is a role in relation to the BBC's performance: to hold it to account for delivering the public purposes, which includes, but is not limited to, setting the operating licence. And, finally, we have a role in relation to the competitive impact of the BBC, and, effectively, ensuring that, while the BBC is able to deliver its public purposes and its mission, at the same time, the impact that it has on the market as it does so is proportionate to the public gain."

**85.** Nododd y bydd Ofcom yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r modd y dylai gyflawni ei gyfrifoldebau newydd, a bydd yn cyflwyno adroddiad maes o law ar y dull y mae wedi'i fabwysiadu.

### Ein barn ni

Mae dyletswyddau rheoleiddio newydd Ofcom o dan Siarter y BBC yn sylweddol ac yn heriol. Nid ydym yn argyhoeddedig fod Ofcom yn barod ar gyfer y rôl hon eto nac yn glir ynghylch sut y dylai gyflawni ei ddyletswyddau newydd. Nid ydym yn beirniadu Ofcom am hynny. Fodd bynnag, mae bellach wedi cael y rôl o reoleiddio'r BBC ac mae angen iddo egluro ei ddull fel mater o frys.

Rydym yn edrych ymlaen at gael rhagor o dystiolaeth gan Ofcom unwaith y bydd mewn sefyllfa well i egluro sut y mae'n bwriadu cyflawni ei ddyletswyddau rheoleiddio newydd o dan Siarter y BBC a beth fydd goblygiadau hyn ar gyfer y BBC yng Nghymru. Yn benodol, sut y mae'n bwriadu sicrhau bod ei rwymedigaeth i sicrhau bod cynulleidfaoedd Cymru yn cael eu 'gwasanaethu'n dda' yn cael ei chynnwys yn ei ddull ar gyfer y dyfodol - ar lefel y DU ac ar lefel Cymru.

Rydym yn edrych ymlaen at glywed mwy am beth fydd rôl Pwyllgor Ofcom dros Gymru, yr aelod o'r Bwrdd Cynnwys sy'n cynrychioli Cymru a rhanddeiliaid ehangach o ran cynorthwyo Ofcom i wneud ei asesiad o berfformiad y BBC yn erbyn ei ddibenion cyhoeddus.

Yn olaf, rydym yn edrych ymlaen at weld drafft o'r drwydded gwasanaeth ar gyfer Cymru er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys digon o fanylion am yr hyn y bydd yn ofynnol ar BBC Cymru.

## Trwydded ITV Cymru

**86.** Ym mis Chwefror 2014, cyhoeddodd Ofcom ei fod wedi adnewyddu'r trwyddedau darlledu ar gyfer Sianel 3 o 1 Ionawr 2015 am gyfnod o ddeng mlynedd, ac y byddai hyn yn golygu trwydded Sianel 3 ar wahân ar gyfer Cymru. Dywedodd hefyd, fel amod o adnewyddu'r drwydded, na fydd swm yr allbwn ar ITV Cymru yn newid. Dywedodd Ofcom:

> The Ofcom Advisory Committee for Wales was a leading advocate for the standalone licence citing the following reasons:
>
> - it recognises the reality of a modern Wales with its own devolved democratic institutions
> - it will help to bring greater accountability to the people of Wales for the service provided by ITV
> - it recognises the heightened role of public service content on public service broadcasting channels in Wales and the need to sustain plurality of programme provision in Wales.

**87.** Ar hyn o bryd, mae'r drwydded yn ei gwneud yn ofynnol i ITV ddarparu pedair awr o newyddion a 90 munud o raglenni nad ydynt yn ymwneud â'r newyddion i Gymru bob wythnos. Roedd gostyngiad sylweddol yn allbwn ITV ar gyfer Cymru yn 2009, yn dilyn ail adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaethau Cyhoeddus.

**88.** Yn dilyn cwestiynau gan yr Aelodau ynglŷn â pha mor briodol oedd telerau trwydded ITV Cymru, dywedodd Rhodri Williams (Cyfarwyddwr Ofcom yng Nghymru):

> "Ar ôl astudio yn fanwl iawn dros gyfnod o amser, ac ymgynghori, fe ddaethom ni i'r casgliad fod y pecyn o ofynion sydd yn weithredol ar hyn o bryd yn rhesymol ac yn gynaliadwy. Oedd, roedd yn golygu gostyngiad yn y rhaglenni heblaw am raglenni newyddion a oedd yn cael eu gwneud gan ITV. Ond rwy'n credu mai'r hyn a wnaethom ni oedd sicrhau bod yr elfennau pwysicaf yn y bwndel hwnnw o raglenni yn cael eu cadw, sef rhaglenni materion cyfoes a rhaglenni yn ymwneud â gwleidyddiaeth ac â materion defnyddwyr, a bod y rheini yn aros yn yr oriau brig."

**89.** Aeth Mr Williams yn ei flaen i dynnu sylw at y ffaith bod y gofynion ar gyfer rhaglenni nad ydynt yn ymwneud â'r newyddion ond sy'n ymwneud yn benodol â'r rhanbarthau (90 munud) yn uwch nag yn rhanbarthau Lloegr (30 munud). Nododd hefyd fod ITV Cymru wedi sicrhau ei ddarllediad cyntaf ar y rhwydwaith ers oddeutu 25 mlynedd yn ddiweddar, gan ddweud bod hyn yn dystiolaeth o'r "uchelgais uwch a welwyd yng Nghymru ers dyfarnu'r drwydded newydd".

## S4C

**90.** Nid yw Ofcom yn trwyddedu S4C yn yr un ffordd ag y mae'n trwyddedu ITV neu Channel 4. Ei rôl yw rheoleiddio cynnwys S4C yn unol â'r Cod Darlledu[36] a chyflwyno cwotâu mewn perthynas â chynhyrchu a hygyrchedd (er enghraifft, isafswm targed ar gyfer S4C i isdeitlo 53 y cant o'i darged: mae'r ffigur gwirioneddol yn 79 y cant ar hyn o bryd).

**91.** Eglurodd Mr Williams i'r Pwyllgor y gwaith a wneir o ran asesu sut y mae S4C yn cyflawni ei ddibenion cyhoeddus, a dywedodd "...nid wyf yn credu bod yna ddim byd sydd wedi codi sydd wedi achosi i ni orfod ymwneud yn ffurfiol ag S4C o gwbl".

## Radio masnachol

**92.** Yn 2015, roedd Archwiliad y Sefydliad Materion Cymreig o'r Cyfryngau (2015)[37] yn nodi:

> "Following relaxation in regulation, local content on Commercial Radio has significantly reduced over the years (across the UK as well as in Wales) and some radio groups, for example Global, have replaced the local identities of their stations in order to establish recognisable UK wide brands such as Heart, Capital and Smooth."

**93.** Mynegodd yr Aelodau bryderon gydag Ofcom ynghylch maint y cynnwys penodol Gymreig ar radio masnachol yng Nghymru. Ymatebodd Mr Williams fod gwasanaethau masnachol yng Nghymru "yn gweithredu mewn ffordd sy'n gyson â'r rhwymedigaethau trwyddedu a osodir arnynt". Wrth drafod y posibilrwydd ar gyfer newid yn y ddeddfwriaeth i osod rhwymedigaethau gwasanaethau cyhoeddus pellach ar ddarparwyr radio masnachol, nododd Mr Williams fod "y duedd dros gyfnod o amser mewn radio wedi bod tuag at ddarparu mwy o ryddid a chyfrifoldeb i'r cwmnïau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn a lleihau rôl y rheoleiddiwr".

### Ein barn ni

Mae gan Radio Masnachol rôl allweddol yn adrodd newyddion Cymraeg ac adlewyrchu cymdeithas a safbwyntiau Cymru, yn enwedig ar lefel leol. Ein bwriad ni yw cynnal Ymchwiliad ar ddyfodol radio yng Nghymru, a fydd yn edrych yn benodol ar faterion sy'n ymwneud â radio masnachol.

## Channel 4

**94.** Fel un o'r darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru, mae gan Channel 4 rwymedigaethau i adlewyrchu amrywiaeth y DU, gan gynnwys Cymru, yn ei hallbwn. Mae ganddi hefyd rwymedigaeth i gomisiynu cyfran deg o'i chynnwys gwreiddiol ar draws rhanbarthau a gwledydd y DU.

**95.** Mae Adroddiad Blynyddol 2015 Channel 4 yn dangos bod y gyfran o raglenni gwreiddiol a ddangosir am y tro cyntaf ar y brif sianel o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi codi tri phwynt canran, i 9 y cant (2.6 y cant ar gyfer Cymru). O ran gwariant, cynyddodd y gyfran o'r gyllideb ar gyfer

---

[36] Cod Darlledu Ofcom (https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code)
[37] Archwiliad o'r Cyfryngau 2015 – Sefydliad Materion Cymreig (http://www.iwa.wales/news/2015/11/iwa-wales-media-audit-2015/)

dangos rhaglenni gwreiddiol am y tro cyntaf ar y brif sianel un pwynt canran, i 7 y cant o'r cyfanswm (2.0 y cant ar gyfer Cymru).[38]

**96.** Yn 2014 cadarnhaodd Ofcom delerau'r drwydded 10 mlynedd newydd ar gyfer Channel 4, ac roedd yn treblu ei chwota ar gyfer cynnwys a gynhyrchir y tu allan i Loegr o dri y cant o ran cyfaint a gwariant i naw y cant o 2020 ymlaen.[39]

**97.** Ystyriodd Ofcom nifer o opsiynau ar y pryd, gan gynnwys cynyddu'r cwota ymhellach. Dyma'r tri chynnig opsiynau bras a gyflwynwyd:

- cynyddu'r cwota i 17 y cant, gan fod yn gymesur â dosbarthiad y boblogaeth yn y Gwledydd a'r targed a fabwysiadwyd gan y BBC;
- cynyddu'r cwota i 12 y cant neu 15 y cant, wedi'i awgrymu fel canolbwynt rhwng cyflawniad presennol a tharged y BBC, gan adlewyrchu'r cyfyngiadau penodol ar gyfer Channel 4; a
- chynyddu'r cwota i 9 y cant erbyn 2020, cynnig a wnaed gan C4C.[40]

**98.** Fodd bynnag, dywedodd:

> "we were mindful of commercial implications for C4C and the effect on delivery of Channel 4's other licence conditions, and the potential impact on other stakeholders, particularly the independent producers from whom Channel 4 commissions programmes, of a significant increase in the quota."

**99.** Yn ei hymateb i ymgynghoriad Ofcom, dywedodd Llywodraeth Cymru y dylai Channel 4 barhau i gynyddu ei buddsoddiad mewn mentrau i gynorthwyo cynhyrchwyr yn y Gwledydd. Mae'n dadlau y dylai'r cwota o 9 y cant gael ei ddwyn ymlaen i 2016 ar y sail bod cyfran Channel 4 o gynhyrchu yn y Gwledydd wedi dyblu rhwng 2009 a 2012, a phe bai'r un cynnydd cynyddrannol cyfartalog yn cael ei gyflawni, y gellid disgwyl 8.1 y cant (gwerth) a 10.4 y cant (awr) o gynyrchiadau erbyn 2016. Roedd Llywodraeth Cymru yn galw ar y cwota y tu allan i Loegr fod yn 9 y cant yn 2016, ac yna dylid cynnal adolygiad pellach.

### Ein barn ni

Mae'n braf nodi'r cynnydd mewn cyfaint a gwariant ar gynhyrchu y tu allan i Loegr gan Channel 4, ac rydym yn sicr yn croesawu'r llwybr ar i fyny ar gyfer y ffigurau hyn. Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn sylweddol is na'r cyfrannau poblogaeth ar gyfer Cymru a gwledydd eraill y DU y tu allan i Loegr.

Er bod y Pwyllgor yn gwerthfawrogi nad yw cymhariaeth uniongyrchol gyda'r BBC - sydd â thargedau uwch - yn briodol o ystyried dibenion cyhoeddus gwahanol y ddau ddarlledwr, teimlwn, ynghyd â Llywodraeth Cymru, y dylai Channel 4 gael ei herio mwy i gynyddu ei chynyrchiadau a'i gwariant y tu allan i Loegr. Byddai hyn yn arwain at fwy o amrywiaeth o gynhyrchu a fyddai o fudd i wylwyr, a hefyd yn helpu i ledaenu manteision economaidd

---

[38] Adroddiad Blynyddol Channel 4 ar gyfer 2015 (http://annualreport.channel4.com/downloads/Channel-4-annual-report-2015.pdf)
[39] Adnewyddu trwydded Channel 4, datganiad Ofcom, 11 Mawrth 2014 (https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0033/83778/channel_4_licence_renewal_statement.pdf)
[40] Ofcom yn cadarnhau'r telerau ar gyfer trwydded newydd Channel 4, datganiad i'r wasg Ofcom, 11 Mawrth 2014 (https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/latest/media/media-releases/2014/ofcom-confirms-terms-for-new-channel-4-licence)

gwariant Channel 4 yn fwy cyfartal ledled y DU. Mae bywiogrwydd y sector cynhyrchu yng Nghymru yn golygu ei fod yn fwy na pharod i ateb yr her i gynhyrchu mwy o raglenni o safon uchel ar gyfer Channel 4.

Rydym yn croesawu ymrwymiad gwirfoddol Channel 4 i weld y 9 y cant fel yr isafswm ac yn anelu at ragori ar y cwota hwn lle bo modd. Dymunwn bob llwyddiant i Channel 4 yn rhagori ar y gofyniad hwn a byddwn yn ei gwahodd i drafod ei gwaith yng Nghymru, ac adlewyrchu Cymru ar y sgrin, gyda'r Pwyllgor yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, mae'n siomedig bod Ofcom wrth osod y cwota newydd wedi dewis yr isaf o'r tri opsiwn a ystyriwyd.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn galw ar Ofcom i asesu pa bwerau sydd ganddo i gynyddu cwotâu Channel 4 y tu allan i Loegr cyn adnewyddu'r drwydded nesaf yn 2024 a thrwy wneud hynny, ailystyried yr opsiynau mwy heriol a awgrymwyd ar gyfer cynyddu'r cwota yn 2013-14.